Cofnodion cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** a gynhaliwyd yn yr
Hen Lys, Sgwâr Sant Pedr, Rhuthun, nos Lun, 6 Ionawr 2020 am **8:00p.m.**

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Stephen Beach, Gavin Harris, Ken Hawkins, John Wynne Hughes, Ian Lewney, Robert Owen-Ellis a Heather Williams.

44. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Jabez Oakes ac Ifan Wyn.

45. DATGAN BUDDIANNAU
Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

46. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL
Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2019 yn gywir.

47. MATERION YN CODI
Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

40. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO
Adroddodd y Clerc y derbyniwyd y penderfyniad cynllunio a ganlyn gan Gyngor Sir Ddinbych:
02/2019/1035 – Ysgol Glasdir (Stryd y Rhos Street a Phen Barras), Ffordd Glasdir, Rhuthun – Tystysgrif datblygiad cyfreithlon ar gyfer gosod wyneb arfaethedig ar y cae ysgol sy'n bodoli eisoes i greu maes chwarae llawr caled aml-swyddogaeth – Ardystiwyd
02/2019/0946 – Glaslyn, Ffordd Maes Glas, Rhuthun – Adeiladu estyniad porth blaen a gosod ffenestr ddormer yn y llawr cyntaf a gwaith cysylltiedig – Caniatawyd
02/2019/1024 – Capel Bryn Seion, Galltegfa, Rhuthun – Manylion draenio'r dŵr arwyneb ac ati – Cymeradwywyd
02/2019/0194 – Bryn Ffynnon, Llanfwrog, Rhuthun – Addasiadau ac estyniadau i'r annedd ac adeiladu garej newydd (cais Adeilad Rhestredig) – Caniatawyd
02/2019/0944 – Tŷ Cefn, Llanfwrog, Rhuthun – Newid defnydd tir amaethyddol i ffurfio estyniad i'r cwrtil domestig sy'n bodoli eisoes (cais ôl-weithredol) – Caniatawyd

41. CEISIADAU CYNLLUNIO
Ystyriodd y Pwyllgor y ceisiadau a ganlyn a gyflwynwyd am sylwadau gan Gyngor Sir Ddinbych.
PENDERFYNWYD: *nad oedd unrhyw wrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio a ganlyn.*

02/2019/0970 – Ye Olde Cross Keys Inn, Llanfwrog, Rhuthun
Dymchwel yr estyniad to fflat presennol yn y cefn, tynnu arwydd hysbysebu oddi ar y talcen, ffurfio agoriadau drysau a ffenestri, gosod goleuadau ffordd, gosod grisiau mewnol a gwaith cysylltiedig (Cais Adeilad Rhestredig)
02/2019/1073 – Bron Parc, Galltegfa, Rhuthun
Dymchwel yr adeiladau presennol ac adeiladu sied storio offer amaethyddol a thrin defaid.
02/2019/1086 – Dolwen, 24 Parc y Castell, Rhuthun
Adeiladu estyniad deulawr ar gefn yr annedd.
02/2019/1088 & 1089 – 10 Rhes y Rheilffordd, Ffordd yr Orsaf, Rhuthun
Adeiladu estyniad deulawr yn y cefn a gwaith mewnol cysylltiedig a Chais Adeilad Rhestredig.

02/2019/1056 – Cyn Llain Fowlio a Chwrt Tennis y tu cefn i The Bungalow, Stryd y Castell
Adeiladu annedd sengl a gwaith cysylltiedig
PENDERFYNWYD: *anfon sylwadau'n nodi bod yr aelodau'n bryderus am effaith niweidiol yr annedd arfaethedig ar eiddo cyfagos, yn cynnwys Nantclwyd y Dre, oherwydd ei raddfa a'i faint. Dymunant annog y datblygwr i ailystyried y dyluniad fel bod yr eiddo newydd yn un deulawr, dim uwch na waliau'r ardd gyfagos.*

50. DIGWYDDIAD YR AROLYGIAETH GYNLLUNIO A CHYMORTH CYNLLUNIO CYMRU

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried gwahoddiad i ddigwyddiad cynllunio ar y cyd i'w gynnal yn Llandudno ar 24 Ionawr. Cynigiodd y Cynghorydd Heather Williams, Cadeirydd y Pwyllgor, fynd i'r digwyddiad

PENDERFYNWYD: *y byddai'r Cynghorydd Heather Williams yn mynd i'r digwyddiad ar ran Cyngor Tref Rhuthun.*

51. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Lun, 3 Chwefror 2020 am 8pm.*